

# Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol Peilot

Papur Polisi

## Gogledd Iwerddon

Hunaniaeth

Ddinesig

Hydref 2024



Comisiynwyd gan:



# Cyd-destun Polisi

Yng nghyd-destun Portrush, nid yw polisi ar lefel llywodraeth leol wedi ateb apelïadau cymunedol am barc sglefrïo yn y dref ers bron i 30 mlynedd.

Nid yw ymgyrchoedd lobïo parhaus, [prosesau casglu data](#), datganiadau o gefnogaeth gan y gymuned leol, a rhywfaint o gefnogaeth gan Gynghorwyr sy'n pleidleisïo yn siambr Arfordir Causeway a Chyngor Bwrdeistref Glens wedi llwyddo i fynd i'r afael â nod slogan yr ymgyrch 'Get Portrush a Skatepark!'.

Mae sglefrfyrdio fel arfer creadigol wedi arwain at symudiadau ailddatblygu ehangach i ['gyrchfannu'r' dref glan môr](#). O ganlyniad, mae apelïadau sglefrwyr am le wedi cael eu gwthio i'r cyrion ac ni fu unrhyw ystyriaeth i sglefrfyrdio (nac unrhyw chwaraeon trefol eraill) yn strategaethau datblygu chwaraeon a thwristiaeth/hamdden y Cyngor hyd yma. Mae hyn yn cyferbynnu â nifer o barciau sglefrïo a adeiladwyd gan Gynghorau Bwrdeistref eraill ledled Gogledd Iwerddon ers 2011 ac mae bellach yn groes i'r diffiniad cymdeithasol ehangach o sglefrfyrdio, gan gynnwys ei ychwanegiad diweddar at [gwricwlwm TGAU Addysg Gorfforol yng Ngogledd Iwerddon](#).

Mae'r gymuned sglefrfyrdio wedi datblygu dull Gwneud Pethau Eich Hun cryf o ran darparu seilwaith, gan eu bod wedi gorfod, a hefyd fel mynegiant o gynhyrchu diwylliannol annibynnol. Mae'r gweithredu hunan-gyfeiriedig hwn ar lawr gwlad yn ffynhonnell bwysig o [rymuso cymunedol](#), sy'n cael ei ystyried yn bolisi gyda 'p' fach.

# Argymhellion

## Polisi Llwr Gwlad ar gyfer grymuso cymunedau

### Dylid hawlio 'polisi' yn ôl fel hunanreolaeth gymunedol

Mae cyd-destunau 'methiant polisi', fel y rhai a brofir gan sglefrwyr yn Portrush, yn gwneud i gymunedau i deimlo eu bod yn cael eu dadrymuso. I (ail-)rymuso cymunedau gydag ymdeimlad o [weithredu dinesig](#), gellir ail-fframio polisi, ei derminoleg a'i ymarfer, fel polisi gyda 'p' fach: polisi wedi'i lunio o'r gwaelod i fyny, yn hytrach na'i osod o'r brig i lawr (y cyfeirir ato fel Polisi gyda 'P' fawr).

### Mae angen cefnogaeth ar gymunedau i drefnu a mynnu eu hasiantaeth

Mae polisi 'p' fach eisoes yn digwydd ar lawr gwlad. Y dasg yw gwahaniaethu rhwng trefnu ar lawr gwlad, hunan-gyfeiriedig a [normau brig-i-lawr Polisi 'P' fawr](#). Gall profiad o gymuned yn trefnu i ddiwallu ei hanghenion yn annibynnol fod yn rymusol o ran meithrin perthnasoedd a datblygu ymwybyddiaeth ar y cyd, yn hytrach na chael eu troi'n sianeli llywodraethu biwrocraidd.

### Mae'r achos dros rymuso'r gymuned yn cael ei gyflwyno ar ffurf gweithredoedd

Pan fydd cymunedau ar lawr gwlad yn rhoi eu hasiantaeth ar y cyd ar waith, mae'n dangos hunan-barch a grymuso.

Mae hyn yn cyfleu i randdeiliaid eraill bod y gymuned hon yn mynnu parch – fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar ar gyfer y gymuned sglefrfyrrddio yn Portrush, a'i bod yn mynnu ei bod yn cael ei chymryd o ddifrif fel cymuned sy'n defnyddio manau cyhoeddus go iawn. Dyma'r broses o [lunio polisiâu](#) Gwneud Pethau eich Hun.

Er mwyn dadansoddi 'Gwneud Pethau eich Hun' yn elfennau cyfansoddol: mae'r 'gwneud' yn hanfodol, gan fod y gymuned yn cydnabod ei hasiantaeth ei hun drwy weithredu; polisi 'p' fach yw hwn – rheoli ar y cyd rhwng pobl sydd â diddordebau materol cyffredin; 'eich hun' yw'r mynegiant o ymreolaeth hunan-gyfeiriedig sy'n sail i rymuso cymunedol – y byddem yn ychwanegu newid mewn pwyslais i 'Wneud Gyda'n Gilydd'

## O Gwneud Pethau eich Hun i Wneud Gyda'n Gilydd (cynghreiriau rhydd o amrywiaeth tactegol o fewn strategaeth aml-foddol)

### Parhau i lobïo a phrotestio ochr yn ochr â gweithredu polisi ar lawr gwlad

Yn hanesyddol, yn achos cymuned sglefrfyrrddio Portrush, mae gweithgarwch Gwneud Pethau eich Hun (a Gwneud Gyda'n Gilydd) wedi parhau fel arfer diwylliannol bob dydd, ond ar wahân i'r ymgyrchoedd lobïo a phrotestio sy'n cynnwys 'Get Portrush a Skatepark!' Nid yw ein hargymhelliad i gydnabod y gweithgaredd bob dydd hwn fel ffynhonnell rymuso (pan gaiff ei ail-fframio fel polisi 'p' fach) yn golygu nad yw'n cynnwys lobïo a phrotestio parhaus. Yn hytrach, rydym

yn argymhell bod hyn yn cael ei ymgorffori mewn clymblaid rydd o amrywiaeth tactegol. Mae gwahanol ddulliau o weithgarwch gan wahanol is-etholwyr yn y gymuned sglefrfyrdio yn cael effaith gyfun gryfach. Ond mae 'rhyddid' yn hanfodol, fel nad oes un llais yn rheoli'r cyfeiriad strategol a bod amrywiaeth yn cael ei gynnal yn ystyrlon mewn deialog.

## **Newid y dirwedd gwrthwynebu drwy strategaeth aml-elfen**

Mae'r amrywiaeth hon o ddulliau'n creu strategaeth aml-ddull sy'n trawsnewid y dirwedd o wrthwynebu o ran y parc sglefrio yn effeithiol. Roedd yr anghydbwysedd pŵer rhwng ymgyrchwyr lobio (fel y cânt eu cynrychioli'n bennaf gan [Gymdeithas Chwaraeon Trefol Causeway](#)) a'r Cyngor Bwrdeistref lleol wedi creu rhwystredigaeth sylweddol. Ond mae'r berthynas honno wedi cael ei hailfframio yng ngoleuni sbectwm ehangach o ddulliau tactegol – nid yw'r anghydbwysedd pŵer bellach yn ganolbwynt i'r dirwedd gwrthwynebu. Cyn belled â bod y mentrau ymreolaethol newydd hyn yn gallu parhau y tu hwnt i gyrraedd sefydliadau llywodraethu o'r brig i lawr, mae hyn yn ail-leoli CAUS fel cymedrolwyr yn eu gweithredoedd cyfryngu parhaus gyda'r Cyngor Bwrdeistref.

## **Meddwl o ddifrif am atebion anllywodraethol a llorweddol**

Mae trefnu cymunedol yn aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth i'w gyfethol i

weithrediad y llywodraeth o'r brig i lawr, drwy 'ymgysylltu â'r gymuned' neu 'ymarferion gwrando'. Er bod cael lleisiau cymunedol mewn sefyllfaoedd gwneud penderfyniadau yn welliant, nid yw'n cynnwys gweithgareddau grymuso cymunedol gwirioneddol ar lawr gwlad. Drwy gymryd atebion anllywodraethol o ddifrif, mae repertoire gweithredu cymunedol yn cael ei ehangu. Gallai cyfres o gynlluniau cymunedol llwyddiannus ar lefel anllywodraethol/ar lawr gwlad ddechrau rhoi'r hyder i bobl ddibynnu ar eu cyd-asantiaeth eu hunain yn lle hynny. Mae hyn yn dechrau dod yn realiti i'r gymuned sglefrfyrdio yn Portrush.

## **Rydym yn gofyn i gymunedau creadigol, fel sglefrwyr, wneud y canlynol:**

- Meddwl yn strategol am sut y gall eu gwahanol is-etholwyr ddefnyddio gwahanol ddulliau sy'n cyd-fynd â'u nodau cyffredinol;
- Cydnabod gwerth amrywiaeth tactegol a chadw gwahaniaeth drwy ddeialog parhaus sy'n symud;
- Ystyried gwerth gweithredu cymunedol ar ei delerau ei hun, yn hytrach nag fel cyfraniad at lywodraethu o'r brig i lawr.

## **Rhaid i'r argymhellion hyn gael eu gweithredu gan y gymuned (greadigol) ei hun**

Gellir cyflawni hyn yn ymarferol drwy adeiladu clymblaid yn llorweddol a rhannu cyfranogiad mewn gweithredoedd ar y cyd. Mae gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin, hyd yn oed wrth wyro oddi wrth ddull tactegol, yn datblygu cysylltiadau ystyrlon o fewn ac ar draws y gymuned.

# Cyd-destun Datganoledig

Yn wahanol i adran sectyddol Cynulliad Gogledd Iwerddon a llywodraeth leol yng Nghyngor y Fwrdeistref, mae'r gymuned sglefrfyrrddio yn Portrush yn torri ar draws llinellau ethno-grefyddol – nid yw ei fynegiant diwylliannol yn gysylltiedig ag un 'ochr' neu'r llall. Mae polisi ar lawr gwlad yn y cyd-destun hwn yn rhoi cyfle i asiantaeth wleidyddol nad yw'n sectyddol – mae datganoli grym oddi wrth sefydliadau gwleidyddol sectyddol cynhenid yn agor y drws ar gyfer gweithredu cymunedol ar y cyd.

Fodd bynnag, mae [cyllid yn her ar unwaith](#) i fentrau cymunedol nad ydynt yn cael eu cefnogi (neu sy'n ceisio osgoi dylanwad) cyrff y llywodraeth. Gallai parc sglefrio wedi'i ariannu ei hun yn Portrush fod yn ymarferol, gan droi'r gefnogaeth gymunedol sylweddol a roddwyd gan ymgyrch 'Get Portrush a Skatepark!' yn weithredoedd codi arian. Er y gallai hyn ddiogelu annibyniaeth ddiwylliannol y gymuned, byddai'n faich sylweddol a gallai olygu bod angen model mynediad â thâl i barc sglefrio (y dangoswyd nad yw'n gynaliadwy mewn rhannau eraill o Ogledd Iwerddon).

Cam nesaf a awgrymir ar gyfer ymchwil fyddai gwerthuso (a chynnal 'prawf straen') gwahanol fodolau cyllido a gweithredu ar gyfer parc sglefrio yn Portrush. Os nad yw hunan-ariannu'n gynaliadwy yn y tymor hir, yna gellid ystyried trosglwyddo asedau cymunedol yn ogystal â'r cyfaddawdau posibl i ymreolaeth gymunedol a allai fod yn berthnasol.

## Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I [www.creativecommunities.uk](http://www.creativecommunities.uk)

## Cysylltwch â'r CIP:

Jim Donaghey, Prifysgol Ulster | [jim.donaghey@ulster.ac.uk](mailto:jim.donaghey@ulster.ac.uk)

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.